# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Mehefin 2019

Amser: 09.30 - 11.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5492

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC (yn lle Dawn Bowden AC)<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Helen Mary Jones AC<br>Lynne Neagle AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Steve Ham, Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>Dr Jacinta Abraham, Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>Carl James, Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>Cath O'Brien, Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Rebekah James (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AC, ac roedd Mick Antoniw AC yn bresennol fel dirprwy.

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol: Sesiwn dystiolaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a chytunodd i ysgrifennu ati i gael rhagor o wybodaeth.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cyllid atal hunanladdiad

3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch cyllid atal hunanladdiad

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr. Yn ystod y sesiwn breifat, trafododd y Pwyllgor nifer o faterion a gododd o lythyr y Gweinidog yr oedd am iddynt gael eu cynnwys fel rhan o waith dilynol yn y maes hwn yn y dyfodol.

### 3.3 Llythyr gan Athrofa Llythrennedd Corfforol Cymru ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ynghylch yr adroddiad 'Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc'

3.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y Cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 5 Sesiwn graffu gyffredinol gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd i ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth i gael rhagor o wybodaeth am gynaliadwyedd ei model gofal clinigol newydd a'i threfniadau ar gyfer rhoi gwaed.

## 6 Hepatitis C; Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ychwanegu rhai casgliadau pellach mewn perthynas â gwasanaethau carchar. Bydd y Pwyllgor yn trafod y newidiadau yn y cyfarfod nesaf.

## 7 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) - Trafod amserlen

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr amserlen ddrafft ar gyfer craffu ar y Bil.

## 8 Blaenraglen waith

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau ar gyfer gwaith craffu pellach yn dilyn y sesiwn gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 23 Mai 2019. Yn y lle cyntaf, cytunodd i wahodd y panel trosolwg annibynnol ar famolaeth a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i drafod ei waith mewn cyfarfod yn y dyfodol.